



Welsh Senate of Older People

Manifffesto Senedd Pobl Hŷn Cymru 2021

Mae Senedd Pobl Hŷn Cymru yn llu annibynnol, unedig sy'n cyfuno lleisiau sefydliadau lleol a chenedlaethol i rymuso pobl hŷn ledled Cymru.

Prif nodau:

- Nodi materion pwysig yn ymwneud â buddiannau pobl hŷn yng Nghymru, neu'n effeithio arnynt
- Cyfleu'r materion a'r pryderon hyn, a'u dwyn i sylw llywodraeth ganolog, Llywodraeth Cymru, asiantaethau a chyrrff eraill, a'r cyhoedd
- Cefnogi gwaith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a chyflwyno sylwadau iddi

Galwadau allweddol:

Goresgyn rhagfarn ar sail oedran a gwahaniaethu ar sail oedran

- Adolygu deddfwriaeth a phrosesau sy'n gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl hŷn.
- Goresgyn a herio iaith ac agweddau gwahaniaethol mewn cymdeithas yng Nghymru.
- Hyrwyddo a gweithredu rhaglenni sy'n pontio'r cenedlaethau i alluogi Cymru i fod yn wlad sydd o blaid pobl hŷn.
- Dileu rhwystrau ariannol sy'n atal pobl hŷn rhag cymryd rhan mewn addysg oedolion. Trefnu bod bwrsariau a grantiau ar gael i'r rheiny sy'n 60 oed ac yn hŷn.

Gwybodaeth ac ymgysylltu

- Dylai gwybodaeth am faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn a chymorth sydd ar gael fod yn gwbl hygyrch ac wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir.
- Dylid hysbysu ac ymgynghori'n llawn â phobl hŷn ar ddeddfwriaeth sy'n effeithio arnynt nhw. Dylid trefnu bod gwybodaeth ar gael ym mhob

ffurf, nid yn electronig yn unig, a dylid ei dosbarthu'n eang mewn cymunedau. Dylid cynnwys pobl hŷn mewn penderfyniadau a wneir ar bob lefel o'r llywodraeth. Ni ddylai ymgynghoriadau fod yn ymarfer yn unig ond yn rhan integredig o wneud penderfyniadau a'r broses ddeddfwriaethol.

Allgáu digidol

- Cyhoeddi deddfwriaeth i atal darparwyr gwasanaeth a chynnyrch rhag symud i argaeledd ar-lein yn unig.
- Darparu cymorth ariannol ar gyfer pobl hŷn a fyddai'n hoffi cael eu cynnwys yn ddigidol.
- Darparu mwy o offer am ddim a mynediad at y rhyngwrwyd mewn mannau cymunedol.

Gwasanaethau iechyd a gofal

- Dylai gwasanaethau iechyd rheng flaen fod ar gael mewn cymunedau. Mae diffyg meddygon teulu a nyrsys yn achosi oedi o ran cael apwyntiadau a gwasanaethau hanfodol i bobl hŷn.
- Dylid gwella cludiant i ysbytai. Mae pobl hŷn yn cael anhawster trefnu apwyntiadau, yn sgil problemau â gwasanaethau ambiwlans

nad ydynt yn rhai brys, a diffyg llwybrau cludiant cyhoeddus i ysbytai a chanolfannau iechyd.

- Sicrhau bod fferyllfeydd lleol a gwasanaethau fferyllfa yn cael eu cadw.
- Dylid trin pobl hŷn ag urddas, a'u hysbysu a'u cynnwys yn llawn ynghylch profion a thriniaeth.
- Dylid proffesiynoli'r sector gofal. Bydd cyflogau uwch, hyfforddiant proffesiynol a llwybr gyrfa clir yn annog gweithwyr i ddewis y sector gofal, a bydd yn gwella lefel y gofal a ddarperir.
- Dylid integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal.

Cyfleusterau cyhoeddus a'r amgylchedd adeiledig

- Dylid trefnu bod toiledau cyhoeddus ar gael ym mhob dinas, tref a phentref yng Nghymru. Mae toiledau cyhoeddus glân a diogel yn hanfodol i alluogi pobl hŷn i aros yn weithgar a bod yn rhan o'u cymunedau.
- Dylai mannau cyhoeddus, cyfleusterau a chanolfannau siopa fod yn hygyrch i bawb. Dylai dyluniad strydoedd gynnwys seddi a lleoedd i gyfarfod ar gyfer pobl hŷn.

Tlodi tanwydd

- Dylid gwella cynlluniau effeithlonrwydd ynni er mwyn i bobl hŷn allu cael cymorth i wneud eu cartrefi'n ddiogel a chynnes.

- Dylai cyflenwyr ynni gynnig cynlluniau cost isel sydd gyfwerth â bargeinion ar-lein yn unig i'r bobl hynny nad ydynt yn gallu mynd ar y rhyngrwyd.
- Gellir rhoi terfyn ar gostau ynni ar lefel fforddiadwy i unrhyw un sy'n derbyn Credyd Pensiwn.

Trwyddedau teledu

- Cyhoeddi deddfwriaeth i roi cymorth ariannol i bobl dros 75 oed sydd wedi colli eu trwyddedau teledu am ddim.

For further information please contact:

Senedd Pobl Hŷn Cymru
Llawr Isaf, Tŷ Mariners
Llys Trident
Heol East Moors
Caerdydd CF24 5TD

www.welshsenateofolderpeople.org

